

Eisiau gwybod mwy am y Safon Gwybodaeth Hygyrch?

Os hoffech wybod mwy am y Safon Gwybodaeth Hygyrch, yna ewch i:

www.cydraddoldebhawliaudynol.wales.nhs.uk

Defnyddiwch ddarllenydd cod QR neu lawr lwythwch un i gael gwybod mwy.



Comisiynwyd y daflen hon gan:



Canolfan Cydraddoldeb
a Hawliau Dynol

Centre for Equality
and Human Rights

Mewn partneriaeth â:



Y GANOLFAN ARWYDDO-GOLWG-SAIN
THE CENTRE OF SIGN-SIGHT-SOUND

Safon Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Cholled Synhwyraidd



Fersiwn
Sain / BSL

Y Safon Gwybodaeth Hygyrch

Mae'r Safon Gwybodaeth Hygyrch yn ei gwneud yn ofynnol i feddygfeydd meddygon teulu gofnodi anghenion cyfathrebu a gwybodaeth cleifion â cholled synhwyrdd, a rhannu'r wybodaeth hyn â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. Mae cleifion â cholled synhwyrdd naill ai'n fyddar neu'n drwm eu clyw a/neu yn ddall neu'n rhannol ddall.

Datblygwyd y Safon mewn ymateb i 'Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Cholled Synhwyrdd' a gyhoeddwyd yn 2013. Mae'r Safonau'n nodi'r hyn y mae'n rhaid i sefydliadau iechyd ei wneud i sicrhau bod anghenion cyfathrebu a gwybodaeth claf â cholled synhwyrdd yn cael eu diwallu.

Pam mae'r Safon Gwybodaeth Hygyrch wedi cael ei datblygu?

Mae dros 600,000 o bobl yng Nghymru â cholled synhwyrdd. Mae hyn yn golygu ei bod yn debygol y bydd gan 1 o bob 4 o bobl mewn ystafell aros meddygfa eddyginiaethau fath o golled synhwyrdd. Gall cyfathrebu a gwybodaeth anhygyrch arwain at broblemau diogelwch claf a risgiau a chanlyniadau iechyd gwaeth yn gyffredinol.

Sut fydd y Safon Gwybodaeth Hygyrch yn effeithio arnoch chi?

Mae'n ofynnol i feddygfeydd teulu gofnodi gwahanol anghenion cyfathrebu a gwybodaeth eu cleifion â cholled synhwyrdd a rhannu'r wybodaeth hon wrth wneud atgyfeiriadau i ysbytai.

Pan fyddwch yn rhannu eich anghenion cyfathrebu a gwybodaeth gyda'ch meddygfa, bydd hyn yn cael ei gofnodi ar system wybodaeth eich meddygfa ac yn trosglwyddo'n awtomatig gyda unrhyw atgyfeiriad a wneir ar eich rhan i wasanaeth arall, er enghraifft, os bydd yn ofynnol i chi fynychu ar gyfer claf allanol penodi yn yr ysbyty.

Beth sydd angen i mi ei wneud?

Dywedwch wrth eich meddyg teulu sut rydych chi am iddynt gyfathrebu â chi..

Gofynnwch am wybodaeth mewn fformat hygyrch, er enghraifft, Braille, Iaith Arwyddion Prydain, print bras, sain neu ar ffurf electronig.



Rhannwch eich pryderon gyda'ch meddygfa os nad yw'r wybodaeth a gewch yn hygyrch i chi.